**Vaughan Gething AS/MS**
**Gweinidog yr Economi**
**Minister for Economy**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Paul Davies AS
Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig
Senedd Cymru
Caerdydd
CF99 1SN

9 Mehefin 2022

Annwyl Paul,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 03 Mai.

Rwy'n croesawu'r prif ganfyddiadau a'r argymhellion a gyflwynwyd gan Bwyllgor yr Economi, Masnach yn eich llythyr ac rwy'n ddiolchgar ichi am yr ymdrech a wnaed ac am yr amser a dreuliwyd ar y gwaith hwn

Mae Llywodraeth Cymru yn rhannu rhai o'r pryderon a godwyd gennych ac mae llawer o'ch argymhellion yn adlewyrchu'r gwaith y mae fy swyddogion yn ei wneud eisoes.

Rwyf wedi ymateb i bob un o'ch argymhellion yn eu tro.

**Argymhelliad 1 -** *Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno sylwadau i Lywodraeth y DU drwy'r Fforwm Masnach Gweinidogol, neu unrhyw fforwm arall y mae'n ei ystyried yn briodol, er mwyn:*

> *a) gwneud cais am fynediad llawn i'r data masnach a gedwir gan Lywodraeth y DU, er mwyn rhoi gwybodaeth ychwanegol i Lywodraeth Cymru ynglŷn ag effeithiau posibl y Cytundeb Masnach Rydd rhwng y DU ac Awstralia ar sectorau yng Nghymru; a*
> *b) rhoi asesiad llawn o'r effeithiau tebygol ar sectorau ac is-sectorau o fewn gwledydd a rhanbarthau'r DU mewn asesiadau o effaith cytundebau masnach yn y dyfodol.*

**Cytuno -** Mae swyddogion Llywodraeth Cymru mewn cysylltiad rheolaidd â'u cymheiriaid yn Llywodraeth y DU a byddant yn parhau i ofyn am gael gweld y data a/neu'r dadansoddiadau sydd ar gael, gan gynnwys asesiadau effaith. Rydym wedi gofyn dro ar ôl tro i Lywodraeth y DU gynnal asesiadau penodol o'r effaith ar wledydd unigol y DU, yn ogystal ag asesiad cronnol o'r effaith bosibl pe bai nifer o gytundebau masnach gwahanol. Cafodd ceisiadau o'r fath eu gwneud hefyd ar lefel y Gweinidogion ar draws portffolios nifer o'r Gweinidogion, gan gynnwys yn Fforwm Masnach y Gweinidogion.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Argymhelliad 2 -** *Er mwyn sicrhau bod y Pwyllgor yn gallu ystyried asesiadau Llywodraeth Cymru o gytundebau masnach yn y dyfodol sy'n canolbwyntio ar Gymru fel rhan o'i gwaith craffu, rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru gwblhau a chyhoeddi ei hasesiadau cyn i gytundebau gael eu gosod gerbron Senedd y DU.*

**Cytuno -** Rydym wedi ymrwymo i baratoi adroddiad ar bob Cytundeb Masnach Rydd newydd ac arwyddocaol a lofnodir gan y DU. Mae'r adroddiadau hynny'n tynnu sylw at achosion lle, yn ein barn ni, y gallai cytundebau masnach effeithio ar Gymru, ac maent hefyd yn darparu fersiwn benodol i Gymru o asesiad effaith llywodraeth y DU ei hun. Ein nod yw cyhoeddi'n hadroddiadau cyn i broses Diwygio Cyfansoddiadol a Llywodraethu (CRAG) y DU ddechrau, er mwyn sicrhau bod y pwyllgor yn gallu craffu ar y cytundeb ar yr un pryd â Senedd y DU. Er enghraifft, cyhoeddwyd ein hadroddiad ar y Cytundeb Masnach Rydd rhwng y DU ac Awstralia ar 10 Mai 2022 ac nid yw'r broses Diwygio Cyfansoddiadol a Llywodraethu (CRAG) ar gyfer y cytundeb hwnnw wedi dechrau eto. Yn unol â gofynion Adran 42 o Ddeddf Amaethyddiaeth 2020, cyn i gytundeb gael ei osod yn y Senedd a chyn i'r broses CRAG ddechrau, mae'n rhaid gosod adroddiad ar wahân sy'n nodi i ba raddau y gallai unrhyw fesurau sydd yn y cytundeb effeithio ar lefelau diogelwch statudol y DU. Os bydd hynny'n newid am unrhyw reswm a'r cytundeb yn cael ei osod adeg ei lofnodi, ni fyddem yn gallu cadw at ein hymrwymiad, oherwydd na fyddai digon o amser rhwng yr adeg y deuai'r testun terfynol i law a'r adeg y gosodid y cytundeb inni fedru cynnal asesiad.

**Argymhelliad 3 -** *Mae'r Pwyllgor yn annog Llywodraeth Cymru i barhau i weithio gyda llywodraethau eraill ledled y DU, a chyda'r sector bwyd-amaeth yng Nghymru, i sicrhau bod dulliau effeithiol ar waith i fonitro'r farchnad. Dylid mabwysiadu'r dull hwn ar gyfer sectorau eraill o'r economi hefyd.*

**Cytuno -** Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i fonitro newidiadau yn y farchnad ar draws pob sector ac i weithio ar draws y llywodraethau i nodi a datrys risgiau. Mae'n dadansoddwyr yn gweithio gyda llywodraethau eraill y DU i wneud y defnydd gorau o'r data sydd ar gael inni ar hyn o bryd ar lefel Cymru er mwyn monitro llif masnach a dilyn hynt amodau'r farchnad yn y DU. Byddwn yn parhau i ofyn am gael gweld data masnach manylach ar gyfer Cymru i'n helpu gyda'n gwaith dadansoddi yn y maes hwn. Mae fy swyddogion yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd gyda chynrychiolwyr ar draws y sector bwyd-amaeth cyn i negodiadau ar Gytundebau Masnach Rydd ddechrau, er mwyn deall eu barn nhw am y cyfleoedd a'r bygythiadau sy'n gysylltiedig â phob cytundeb.

**Argymhelliad 4 -** Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru sefydlu mecanweithiau ar gyfer adolygu'n barhaus effeithiau cronnol cytundebau masnach rydd ar economi Cymru. Dylai ymgynghori â gwahanol sectorau ar sut y dylid datblygu'r gwaith hwn a chyhoeddi canfyddiadau'r asesiadau hyn o bryd i'w gilydd.

**Cytuno mewn egwyddor -** Mae fy swyddogion wedi bod yn ystyried yr opsiynau o ran deall ymarferoldeb asesiadau effaith cronnol ac maent wrthi ar hyn o bryd yn edrych ar y manteision posibl a'r agweddau ymarferol ar baratoi asesiad effaith ar yr effeithiau cronnol ar sectorau yng Nghymru, gan gynnwys y sector amaethyddiaeth. Bydd yn rhaid ystyried nifer o faterion cyn y gellir gwneud penderfyniad, gan gynnwys ystyried a oes data addas ar gael (fel y nodir yn Argymhelliad 1), er mwyn sicrhau bod unrhyw ddadansoddiad yn gadarn ac yn ddibynadwy.

**Argymhelliad 5 -** *Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru hefyd gyflwyno sylwadau i Lywodraeth y DU i sicrhau y caiff dadansoddiadau rheolaidd eu cynnal o effaith gronnol cytundebau masnach er mwyn llywio negodiadau masnach y presennol a'r dyfodol.*

**Cytuno -** Mae fy swyddogion wedi trafod arwyddocâd y mater hwn gyda swyddogion Llywodraeth y DU ar sawl achlysur ac wedi pwysleisio dro ar ôl tro yr effeithiau negyddol

posibl y gallai nifer mawr o Gytundebau Masnach Rydd eu cael ar ein cynhyrchwyr domestig. Bydd fy swyddogion yn parhau i drafod hyn gyda Llywodraeth y DU.

**Argymhelliad 6 -** *Mae'r Pwyllgor yn gofyn am gael y wybodaeth ddiweddaraf gan Lywodraeth Cymru ar unrhyw drafodaethau sy'n digwydd ynghylch labelu bwyd a diodydd a gaiff eu mewnforio, gan gynnwys ym maes gwasanaethau bwyd.*

**Cytuno mewn egwyddor -** Er fy mod yn deall y pryderon y mae’r pwyllgor wedi'u codi wrth ddrafftio'r argymhelliad hwn, mae'n bwysig nodi na fydd safonau Iechydol a Ffytoiechydol domestig presennol y DU yn cael eu newid yn uniongyrchol o ganlyniad i’r Cytundeb Masnach Rydd gydag Awstralia. Nid yw'r cytundeb yn golygu y bydd yn rhaid inni dderbyn unrhyw nwyddau y gwrthodwyd mynediad i'r DU iddynt yn y gorffennol. O ran labelu bwyd a fewnforir, mae gofynion ar draws y DU eisoes o ran labelu bwyd a bydd fy swyddogion yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r pwyllgor os bydd unrhyw ddatblygiadau yn hynny o beth.

Argymhelliad 7 - *Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno sylwadau i Lywodraeth y DU i sicrhau ei bod yn cymryd rhan yn nhrefniadau llywodraethu'r Cytundeb Masnach Rydd. Mae'r Pwyllgor hefyd yn gofyn i Lywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf iddi am benderfyniadau sy'n ymwneud â hyn, gan gynnwys unrhyw ymgysylltu neu bresenoldeb ar y gwahanol bwyllgorau a gweithgorau a sefydlir gan y Cytundeb Masnach Rydd.*

**Cytuno -** Mae fy swyddogion mewn cysylltiad dyddiol â'u cymheiriaid yn Llywodraeth y DU ac maent yn chwarae rhan fawr yn y trafodaethau ar sefydlu'r holl bwyllgorau gwahanol ar weithredu a llywodraethu’r Cytundeb Masnach Rydd. Er nad ydym o’r farn y byddai angen i swyddogion Llywodraeth Cymru fod yn bresennol ym mhob cyfarfod o bwyllgor gweithredu’r Cytundeb Masnach Rydd, rydym yn cytuno'n llwyr bod angen strwythur llywodraethu er mwyn sicrhau bod Llywodraeth y DU yn rhoi rhan briodol innni. Byddwn yn parhau i gyflwyno sylwadau i Lywodraeth y DU am y mater hwn.

Yn gywir

Vaughan Gething

**Vaughan Gething AS/MS**
Gweinidog yr Economi
Minister for Economy